



Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

Pecyn Gwyliau Haf 2020

Sylwch fod yr wybodaeth hon yn gywir ddydd Mercher 8 Gorffennaf. Gallai'r wybodaeth newid yn unol â diweddariadau'r Llywodraeth. Rydym yn eich cyngori i gysylltu â phob sefydliad i gadarnhau'r manylion ymlaen llaw. Unwaith y byddwn yn cael gwybod am unrhyw weithgareddau ychwanegol a fydd yn digwydd, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein tudalennau [Facebook](#) a [Twitter](#)

Mae llawer o ansicrwydd wedi bod dros y misoedd diwethaf a bydd haf 2020 yn wahanol i unrhyw haf arall. Yn anffodus, mae nifer o weithgareddau wedi eu canslo i gadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol neu gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y gallant ailgychwyn eto. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau'n dal i allu trefnu gweithgareddau awyr agored neu rai ar-lein.

[Gweithgareddau Awyr Agored](#)

Gardd Erddig – Mae'r ardd yn Erddig bellach ar agor i chi grwydro drwyddi. Bydd y bwyty hefyd yn gwerthu nifer cyfyngedig o ddiodydd a phrydau ysgafn i fynd. Bydd angen i chi archebu eich tocynnau erbyn 3pm ar y diwrnod cyn eich ymweliad. Gall aelodau archebu am ddim, ond bydd rhaid i bawb arall dalu wrth archebu. Cost: £8 yr oedolyn - £4 y plentyn. A wnewch chi gyrraedd o fewn 30 munud i'ch slot amser. Yna bydd croeso i chi aros tan amser cau. Amserau agor 10.00am-4.00pm. I gael rhagor o wybodaeth, ac i archebu tocynnau ewch i: www.nationaltrust.org.uk/erddig

Castell y Waun – Mae'r ardd, yr ystâd a'r cartref, y toiledau a'r ciosg ar agor bellach yng Nghastell y Waun. Bydd angen i chi archebu eich tocynnau erbyn 3pm ar y diwrnod cyn eich ymweliad. Gall aelodau archebu am ddim, ond bydd rhaid i bawb arall dalu wrth archebu. Cost: £8 yr oedolyn - £4 y plentyn. A wnewch chi gyrraedd o fewn 30 munud i'ch slot amser. Amserau agor – Dydd Llun – Dydd Sadwrn 10.00am-2.00pm. I gael rhagor o wybodaeth, ac i archebu tocynnau ewch i: www.nationaltrust.org.uk/chirk-castle



Canolfan Tennis Wrecsam, Ffordd Plas Coch – Er ein bod yn aros am ganllawiau pellach ynglŷn â phryd y gall ein grwpiau gweithgareddau barhau, mae'n dal modd i chi archebu ein cyrtiau awyr agored a chyd-chwarae fel teulu. Cost: £9 y cwrt ar adegau prysur – 4-7pm yn yr wythnos a 9.45am-2.30pm ar benwythnosau. £7 y cwrt ar adegau llai prysur - 11am-4pm yn yr wythnos. Os bydd tywydd gwael, bydd y ganolfan yn canslo'r cyrtiau ac yn rhoi ad-daliad i chi. I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu lle, ffoniwch: 01978 265260

Pro Skills Soccer, Gresffordd a Rhostyllen Bydd Pro-Skills Soccer yn cynnal sesiynau pêl-droed 3 awr o 9am – 12pm a 1pm – 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd y sesiynau yn dechrau ddydd Llun, 27 Gorffennaf ac yn para am 5 wythnos. Pris: £15. Oedran: 4-12 mlwydd oed. Lleoliad: Cae pêl-droed Gresffordd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Mike ar: 07732 648043.

Gweithgareddau Ar-lein

Your Space – Clwb gweithgareddau a chymdeithasol i blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc ar y sbectrwm awtistig. Gan na allwch chi ddod i'r clwb gwyliau yr haf hwn, bydd y clwb gwyliau yn dod atoch chi! Rydym wedi trefnu gweithgareddau anhygoel y gallwch eu gwneud gartref ar ein tudalen penpal.

- Wythnos 1 – 20-26 Gorffennaf – O amgylch y byd mewn 7 diwrnod!
- Wythnos 2 – 27 Gorffennaf – 2 Awst – Chwaraeon a Hamdden
- Wythnos 3 – 3-9 Awst – Cerddoriaeth!
- Wythnos 4 – 10-16 Awst – Yr holl anifeiliaid!
- Wythnos 5 – 17-23 Awst – Gwyddonydd Gwallgof
- Wythnos 6 – 24-30 Awst – Arch Arwyr!

I gael rhagor o wybodaeth ac i ymuno â'r gweithgareddau, ewch i'n tudalen [Facebook](#).

Cyfarfodydd Zoom Gorffennaf Teuluoedd y Goedwig, Campfire Cymru – Dewch i ymuno â'n sesiynau Zoom am gwisiau a gemau llawn hwyl. Mae'r rhain yn sesiynau i blant yn Wrecsam gydag anabledd, Awtistiaeth neu ADHD. Cynhelir y sesiynau Zoom bob dydd Llun am 4pm tan ddiwedd Gorffennaf. I gael rhagor wybodaeth neu ymuno, cysylltwch â Becks ar: 07989 501335 becks@campfirecymru.org.uk



Ysgol Tae Kwon Do a Chreffft Ymladd Ady Jones - Dewch i ymuno â'n dosbarthiadau crefft ymladd Zoom cyffrous. Rydym yn cynnal dosbarthiadau Zoom ar hyn o bryd nes y byddwn yn derbyn canllawiau gan y llywodraeth i ddychwelyd i'n lleoliadau ar Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam a Rhiwabon. I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu lle, anfonwch e-bost at: livetaekwondo@gmail.com

Amser Rhythm Gogledd Cymru – Dim gwyliau gyda'ch plant eleni? Peidiwch â phoeni – mae'n dal modd i chi fwynhau hwyl yr haf gyda'n dosbarthiadau cerddoriaeth haf ar-lein arbennig. Addas i blant 0-6 oed. Cost: £22 am 4 wythnos o hwyl cerddorol. O ddydd Llun 27 Gorffennaf - Dydd Gwener 28 Awst. I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â Ryan ar: 07805 904596 rkholland1@gmail.com

Dancing Gemz – Dydyn ni methu aros i allu ail-agor a dychwelyd i normalrwydd ond nes hynny rydym yn cynnal gweithdai gwych. Ar hyn o bryd rydym yn cynnig ballet, aerobeg, theatr cerdd a dawnsio stryd ar Zoom. I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu lle, ffoniwch: 07843 005130 neu anfon neges atom ar [Facebook](https://www.facebook.com/dancinggemz).

Academi Ddawns a Chelf Delta – Ar hyn o bryd rydym yn cynnal sesiynau dawns ar y cyfrifiadur ond yn gobeithio cynnal clybiau gwyliau haf blynyddol unwaith y byddwn yn derbyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth. Cynhelir clybiau gwyliau yn yr wythnos yn dechrau

- 20 Gorffennaf
- 27 Gorffennaf
- 3 Awst
- 17 Awst
- 24 Awst

Cynhelir sesiynau o 9.30am-3.00pm ac maent yn addas i blant 5 oed a hŷn. Cost: £100 am yr wythnos. Gostyngiad brodyr a chwiorydd ar gael. Sylwch bod lleoedd yn gyfyngedig. I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu lle, ffoniwch: 01978 313444 or info@deltaschool.co.uk



Sialens Ddarllen Yr Haf Llyfrgelloedd Wrecsam – Mae Her Ddarllen yr Haf yn ôl! Eleni, bydd Sgwad Gwirion, Her Ddarllen yr Haf, yn dathlu llyfrau doniol, hapusrwydd a chwerthin. Bydd plant sy'n cymryd rhan yn yr Her yn ymuno â'r Sgwad Gwirion, tîm anturus o anifeiliaid sydd wrth eu bodd yn cael hwyl a mynd yn sownd mewn pob math o lyfrau doniol! Gyda'r aflonyddwch a achosir gan Covid-19 ac effaith pellter cymdeithasol ar ysgolion a llyfrgelloedd cyhoeddus, bydd Her 2020 yn lansio mewn fformat digidol newydd wedi'i gynllunio i gadw plant i gymryd rhan a diddordeb mewn darllen. Bydd yn cefnogi rhieni a gofalwyr gyda phlant sydd eisoes gartref. Bydd yr Her yn rhedeg rhwng 5 Mehefin a chanol mis Medi. Mae gwefan Her Darllen yr Haf yn rhad ac am ddim i gael mynediad ac mae'n cynnwys gemau, cwisiau a gweithgareddau y gellir eu lawrlwytho sy'n cymell ac yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darllen. Er bod adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus ar gau, bydd llyfrgelloedd yn parhau i gyflawni'r Her trwy wasanaethau rhithwir a llwyfannau e-fenthyca. Am fwy o fanylion ewch i www.summerreadingchallenge.org.uk

Hyfforddiant Pêl-droed Liam Davies – Eleni roeddwn i fod i fynd allan i Massachusetts, yr Unol Daleithiau i Hyfforddi mewn gwerysll haf am 8 wythnos. Fodd bynnag, methais fynd oherwydd y pandemig. Ar hyn o bryd, rwy'n chwarae ac yn hyfforddi yng nghlwb pêl-droed Rhos Aelwyd. Rydw i wedi dechrau sianel YouTube mewn partneriaeth â Progressive Sports ac rwy'n llwytho gweithgareddau pêl-droed llawn hwyl ac atyniadol i blant gymryd rhan ynddynt, yng nghysur eu gerddi eu hunain. Addas ar gyfer plant 4-11 oed yn gellir eu haddasu i weddu pob oedran. I gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ewch i: <https://www.youtube.com/channel/UCcXQuAgFTMWb34WKe4LckGg>

Cymraeg i Blant Wrecsam – Ydych chi newydd gael babi, neu'n ceisio diddori baban / plentyn bach adref neu efallai'n gobeithio cyflwyno'r Gymraeg i'r un bach? Byddwn yn gosod llawer o weithgareddau gan gynnwys stori a rhigwm, straeon amser gwely, syniadau crefft a mwy ar ein tudalen [Facebook](https://www.facebook.com/wrexhamfamilyinformation). I gael rhagor o wybodaeth am Gymraeg i Blant cysylltwch ag: elin.hedd@meithrin.cymru



Dydd Mercher 5 Awst

Diwrnod Chwarae Ar-lein

Cynhelir Diwrnod Chwarae 2020 eleni, ond bydd yn wahanol iawn. Yn sgil y pandemig Covid19 presennol, nid yw'n ddiogel i gynnal ymgynulladau mawr a dros y blynyddoedd, mae Diwrnod Chwarae Wrecsam wedi datblygu i fod yn un o'r digwyddiadau mwyaf a gynhelir yng nghanol y dref. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu fod yn rhaid canslo'r Diwrnod Chwarae ac yn lle hynny, byddwn ar-lein fel fod plant o bob cwr o'r sir (ac efallai ymhellach) yn gallu ymuno gyda nifer o'r sefydliadau sy'n cefnogi'r Diwrnod Chwarae ac yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae gartref.

Nod y Diwrnod Chwarae yw tynnu sylw at hawl plant i chwarae, gan annog pobl i gydnabod gwerth chwarae i blant, eu teuluoedd a'u cymunedau lleol. Wrth wneud hyn, mae digwyddiad diwrnod chwarae Wrecsam yn rhan o ymrwymiad parhaus yr awdurdod lleol i geisio sicrhau bod pob plentyn ar draws y fwrdeistref sirol yn cael digon o amser, lle a chaniatâd i chwarae. Thema Cenedlaethol y Diwrnod Chwarae eleni yw "Rhyddid Bob Dydd, Anturiaethau Bob Dydd" felly byddwn yn ceisio dod â'r Diwrnod Chwarae i'r manau bob dydd y mae plant ynddynt ar hyn o bryd.

Gobeithiwn y bydd plant, rhieni a gofalwyr Wrecsam yn parhau i'n cefnogi ni ac yn dod at ei gilydd (ar-lein) i ddathlu hawl plant i chwarae. Felly rhowch dydd Mercher 5 Awst yn eich dyddiaduron ac ymuno â ni i gael hwyl. Byddwn yn ymuno gyda sefydliadau eraill o bob cwr o Gymru wrth iddynt gysylltu gyda Chwarae Cymru i wneud sŵn ar ran Chwarae ar ryw adeg yn ystod y dydd. Gallwch ddilyn y digwyddiad drwy gydol y diwrnod ar dudalen [Facebook Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam](#).


Gweithgareddau i'w gwneud gartref

Creu Ooblek – Gweithgaredd poblogaidd iawn gyda phlant cyn oedran ysgol ond mae'n hwyl i blant o bob oedran. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cymysgu blawd corn a ddŵr ac mae'n ymddwyn fel solid a hylif.

<https://busytoddler.com/2019/07/oobleck-baking-station/>

Paent ciwbiau rhew – I gael hwyl yn paentio yn yr ardd, bydd angen lliwur bwyd, ffyn loli, daliwr ciwbiau rhew ac ychydig o ddŵr. Poblogaidd gyda phlant 5 oed ac iau ond yn addas i bob oed.

<https://www.easypeasyandfun.com/painting-with-ice/>



Gêm OXO cerrig – Paentiwch gerrig mân a’u defnyddio i chwarae gemau OXO yn yr ardd. Bydd arnoch angen 8-10 carreg, ffyn, paent a farnis (dewisol). Addas ar gyfer pob oedran.

<https://www.redtedart.com/tic-tac-toe-stone-bees-ladies-birds/>

Creu lamp lafa – Arbrawf gwyddonol llawn hwyl i blant o bob oedran. Gwylwch beth sy’n digwydd wrth gymysgu’r cynhwysion gyda’i gilydd. Bydd arnoch angen potel ddŵr neu gwpan blastig, lliwur bwyd, olew coginio, alka seltzer

<https://littlebinsforlittlehands.com/homemade-lava-lamp-density-science-experiment/>

Creu Llosgfynydd sy'n Ffrwydro - Arbrawf gwyddonol poblogaidd arall sy'n hwyl i bobl o bob oed. Mae angen ychydig o eitemau arnoch i adeiladu llosgfynydd ond gellir ei aildefnyddio. Bydd arnoch angen cardbord, glud, paent, cling ffilm, lliwur bwyd coch, finegr, soda pobi, art roc neu mod roc, dŵr, papur newydd, potel fach blastig.

<https://www.science-sparks.com/how-to-make-a-reusable-volcano/>

Crëwch Hofrennydd Bapur - Gweithgaredd syml ond llawn hwyl sy'n addas i bob oedran ac yn diddori plant am gryn dipyn o amser. Bydd angen sribedi o bapur, pinnau ysgrifennu a glud (os ydych yn addurno), clip papur, siswrn.

<https://www.redtedart.com/paper-helicopter-diy-stem-kids/>

Cael Ras Gychod – Cymerwch olwg drwy eich bocs ailgylchu i chwilio am gynwysyddion bach a fydd yn arnofio ar ddŵr. Addurnwch, ychwanegwch hwyl a rasio eich cwch mewn cynhwysydd yn yr ardd neu yn o bath os nad yw’r tywydd yn braf. Yn addas ar gyfer plant 6 oed ac iau.

<https://www.activityvillage.co.uk/hold-a-boat-race>

Creu Daliwr Haul – Ail-ddefnyddiwch ffoil a deunydd lapio da-da i greu daliwr haul bach llachar. Bydd arnoch angen ffoil, deunydd lapio da-da, lud, nodwydd ac edau. Addas i bob oedran ond byddwch yn ofalus gyda dwylo bach gan y gall ymyl yr haul fod yn siarp.

<https://www.activityvillage.co.uk/sun-suncatcher>



Creu Troellwr Papur – Crefft syml arall sy'n ffefryn gyda phob oed. Bydd arnoch angen ychydig o liny, cylchoedd cardbord, marcwyr, sisyrnau, ffon lud.

<https://www.makeandtakes.com/diy-paper-spinner>

Creu Siart Uchder Printiau Llaw Paent Blodyn yr Haul - Gweithgaredd llawn hwyl i olrhain faint rydych chi wedi tyfu dros yr haf. Bydd arnoch angen bapur adeiladu, paent poster gwyrdd, brown a melyn, beiro ddu a phren mesur.

<https://www.activityvillage.co.uk/sunflower-handprint-painting-height-chart>

Crëwch Fwclis Enfys – Gweithgaredd gwych i blant bach ddefnyddio eu sgiliau echddygol manwl. Bydd arnoch angen ychydig o edau neu liny, tyllwr, siswrn a phensil. Yn addas ar gyfer plant 5 oed ac iau.

<https://handsonaswegrow.com/size-sorting-circles-rainbow-necklace/>

Brwydr y Bwgan Brain, Menter Iaith Fflint a Wrecsam – 3-17 Awst. Allwch chi greu bwgan brain gorau Cymru? Cru bwgan brain ar thema Cymru a Chymreictod a osod eich bwgan brain mewn safle diogel ac addas. Gyrru llun o'ch bwgan brain i cadi@menteriaithfflintwrecsam.cymru . Mi fydd enillydd pob ardal yn mynd ymlaen I'r rownd genedlaethol I gystadlu am wobr arbennig.

Ystyriwch gofrestru i dderbyn y wybodaeth hon yn awtomatig ar gyfer pob gwyliau ysgol, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Ewch i <http://www.wrexham.gov.uk/register> a rhowch eich cyfeiriad e-bost yn y blwch Diweddariadau E-bost. Ar ôl i chi bwysu tanysgrifio, dewiswch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a byddwch yn derbyn gwybodaeth gennym yn syth i'ch mewnflwch.